Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

28 Medi 2022

Annwyl Peredur,

Wrth baratoi ar gyfer ein sesiwn ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 yn ddiweddarach yr wythnos hon, roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol nodi'r sefyllfa bresennol a thynnu sylw at yr heriau sylweddol sy'n ein hwynebu wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb.

Fel y gwyddoch, wrth osod Cyllideb aml-flwyddyn y llynedd, roedd Llywodraeth Cymru am gynnig sicrwydd i'n rhanddeiliaid a'n partneriaid, gan sicrhau Cyllideb ar gyfer Cymru decach a mwy gwyrdd. Amlinellais ar ddechrau'r haf fod ein Cyllideb eisoes yn werth o leiaf £600m yn llai mewn termau real nag y disgwylid yn wreiddiol. Mae'r sefyllfa hon bellach wedi gwaethygu ymhellach.

Mae gwrthodiad y Canghellor i adael i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ddarparu rhagolwg economaidd cyn datganiad cyllidol yr wythnos diwethaf yn gyfan gwbl anghyfrifol. Yn niffyg rhagolygon OBR, a seilir ar waith gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol a rhagolygon annibynnol newydd a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, mae gwerth cyllideb Llywodraeth Cymru dros y setliad 3 blynedd presennol hyd at £4bn yn llai mewn termau real nag a ddisgwylid pan wnaed y setliad hwnnw. Methodd datganiad y Canghellor yn llwyr â chydnabod y pwysau hyn.

Ochr yn ochr â gwaddol hir cyni, ymadawiad y DU â'r UE, y pandemig a'n hymdrechion parhaus i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, rydym wedi gweld effeithiau'r argyfwng dyngarol yn Wcráin a'r effeithiau cysylltiedig ar chwyddiant. Roedd y mesurau cyllidol a gyflwynwyd gan y Canghellor fel rhan o'i ddatganiad yr wythnos diwethaf yn cynnwys toriadau treth sydd o fudd anghymesur i bobl gyfoethog; maent yn methu â mynd i'r afael â phwysau chwyddiant a phwysau eraill ar gyllidebau'r sector cyhoeddus ac nid ydynt yn darparu'r ysgogiad cyfalaf y mae ei angen i hybu twf economaidd. Rydym o'r farn hwn yw'r cyd-destun cyllidol mwyaf heriol yr ydym wedi'i wynebu ers datganoli.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd Prif Economegydd Llywodraeth Cymru yn ymuno â'r Pwyllgor cyn ein sesiwn ddydd Iau 29 Medi i roi trosolwg o sut y mae'r amodau economaidd a chyllidol yn cael effaith ar Lywodraeth Cymru, a'n partneriaid, yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Bydd hefyd yn ystyried y rhagolygon ar gyfer y cyfnod sydd i ddod yng ngoleuni cyhoeddiadau diweddaraf Llywodraeth y DU.

Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU am Warant Pris Ynni'n awgrymu y gallai chwyddiant aros yn agos at y gyfradd bresennol o 9.9% yn y misoedd i ddod yn hytrach na chynyddu i 15% - 20% fel a ddisgwylid cyn y warant. Er hynny, hyd yn oed ar lefel o tua 10%, bydd chwyddiant yn debygol o aros yn llawer uwch na'r twf mewn enillion. Mae aelwydydd eisoes yn cwtogi yn sylweddol ar wario a byddwch yn ymwybodol bod Banc Lloegr wedi asesu'n ddiweddar y gallai'r DU fod eisoes mewn dirwasgiad.

Er y bydd cyhoeddiad y Prif Weinidog am ynni yn lleddfu rhai o'r pwysau ychwanegol a ragwelir ar aelwydydd, mae'r fenter hon yn methu â thargedu cymorth at y rhai y mae arnynt ei angen fwyaf. Ar ben hynny, mae'r newidiadau treth a nodir yn natganiad cyllidol y Canghellor yn anflaengar iawn, gyda'r bobl fwyaf cefnog yn elwa fwyaf.

Mae cyfradd gyfnewid sterling, sydd eisoes wedi dibrisio'n sylweddol eleni, wedi gwanhau ymhellach ers i Lywodraeth newydd y DU ddod i rym ac mae wedi bod o dan bwysau arbennig ers datganiad cyllidol y Canghellor. Yn ogystal, mae cyfraddau llog y farchnad wedi bod yn codi, yn rhannol wrth ddisgwyl symudiadau pellach gan Fanc Lloegr i gynyddu'r gyfradd sylfaenol.

Mae'r gyfradd gyfnewid wannach, ynghyd â chyfraddau llog uwch ar ddyled Llywodraeth y DU, yn dangos bod buddsoddwyr rhyngwladol yn fwyfwy nerfus ynghylch rhagylygon economaidd y DU ac yn amheus ynghylch strategaeth economaidd Llywodraeth y DU.

Mae'r rhagolygon yn llawn ansicrwydd ac er y gallai'r arafwch economaidd brofi nad yw mor ddwfn neu mor hir ag y byddai wedi bod pe na bai'r warant pris ynni wedi'i rhoi ar waith, disgwylir iddo fod yn niweidiol iawn i incwm a chyflogaeth o hyd. Mae'n ymddangos y bydd cynnydd mewn cyfraddau llog bellach yn debygol o ychwanegu at yr heriau sy'n wynebu aelwydydd a busnesau.

O ran amseriad Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi Cynllun Cyllidol Tymor Canolig ar 23 Tachwedd ochr yn ochr â rhagolwg OBR wedi'i ddiweddaru. Bydd Cyllideb y DU yn y Gwanwyn gyda rhagolygon pellach gan yr OBR. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU hefyd nad yw'n bwriadu gwneud newidiadau i'r setliadau a gadarnhawyd yn yr Adolygiad o Wariant, 2021. O gofio'r cyd-destun hwn, rwyf yn parhau i wneud paratoadau ar gyfer ein Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn seiliedig ar gyllid yr adolygiad o wariant oddi wrth Lywodraeth y DU. Dylem gydnabod, er hynny, fod Cyllideb i'r DU yn y gwanwyn yn y dyfodol yn effeithio ar ein Cyllideb Derfynol os bydd Llywodraeth y DU'n dewis gwneud newidiadau pellach rhwng ein Cyllideb ddrafft a'r Gyllideb derfynol.

Mae risgiau'n gysylltiedig â newidiadau yn yr ardoll Yswiriant Gwladol a allai arwain at ostyngiadau i'n setliad. Rydym hefyd wedi gweld Llywodraeth y DU yn newid ei bwriadau datganedig ac er bod ymrwymiad i beidio ag ailagor yr Adolygiad o Wariant, ni allwn ddiystyru newidiadau sylweddol i'n setliad.

Rwyf wedi codi'r pryderon hyn gyda Thrysorlys EM a byddaf yn parhau i wneud hynny. Ar y sail hon, nid wyf yn awgrymu newid i ddyddiad cyhoeddi ein Cyllideb Ddrafft gyda dyddiad cyhoeddi o 13 Rhagfyr 2022 wedi'i bennu. Fel bob tro, mae'n bwysig bod cydbwysedd rhwng cael digon o amser i ymgymryd â'n paratoadau yn erbyn darparu sefydlogrwydd i'n

partneriaid a digon o amser ar gyfer craffu. O gofio'r her sylweddol sydd o'n blaenau, byddwn yn croesawu trafodaeth bellach ar hyn yn ystod ein sesiwn.

Cyn datganiad cyllidol y DU, ysgrifennais at y Canghellor newydd a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ochr yn ochr â Gweinidogion Cyllid eraill y Llywodraeth Ddatganoledig, i bwyso ar frys ar Lywodraeth y DU i roi'r cyllid ychwanegol y mae ei angen i ymateb i'r amgylchiadau yr ydym yn eu hwynebu, ac i roi gwybodaeth ac eglurder cynnar ynghylch penderfyniadau cyllidol Llywodraeth y DU, a fydd â goblygiadau i'n Cyllideb. Gwaetha'r modd, nid yw'r galwadau hyn wedi'u hateb eto.

Drwy amlinellu'r cyd-destun hwn, rwyf yn gobeithio hwyluso deialog adeiladol ac agored tuag at feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r heriau sy'n wynebu Cymru wrth inni baratoi ar gyfer cylch nesaf y Gyllideb pan fyddwn yn cyfarfod yn ddiweddarach yr wythnos hon. Byddwn yn croesawu myfyrdodau a syniadau'r Pwyllgor ar sut y gallwn baratoi'n well gyda'n gilydd ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2023-24 yn erbyn cefndir mor heriol.

Byddwn yn croesawu cefnogaeth y Pwyllgor wrth gydweithio i alw ar Lywodraeth y DU i ddarparu'r cyllid angenrheidiol ac i barchu rôl y Seneddau datganoledig wrth lwyddo i ymgymryd â'u prosesau cyllidebol eu hunain yn effeithiol. Edrychaf ymlaen at drafod hyn gyda chi ymhellach pan fyddwn yn cyfarfod ar 29 Medi.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government